



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

**Nodyn Cyngor Gweithredol Iechyd y Cyhoedd i
Llywodraeth Cymru ar ymchwilio i glystyrau a
digwyddiadau COVID-19 mewn lleoliadau addysg a
gofal plant a'u rheoli**

Awdur: Dr Anna Schwappach/ Dr Gwen Lowe

Dyddiad: 26 Mehefin 2020

Fersiwn: V1a

Cyhoeddi/ Dosbarthu:

I LYWODRAETH CYMRU A PHARTNERIAID ALLWEDDOL

Dyddiad Adolygu: 7 Gorffennaf 2020

Diben y Ddogfen a Chrynodeb Ohoni: Amlinellu'r prosesau cenedlaethol ar gyfer ymchwilio i unrhyw glystyrau ac achosion o COVID-19 a geir mewn lleoliadau addysg a gofal plant yng Nghymru ar ôl 29 Mehefin 2020 a'u rheoli.

1 Diben y Nodyn Cyngor hwn

Mae'r nodyn cyngor hwn yn nodi cyngor iechyd y cyhoedd ar y ffordd y dylid ymchwilio i glystyrau a digwyddiadau COVID-19 a'u rheoli pan fyddant yn digwydd mewn lleoliadau addysg a gofal plant yng Nghymru. Caiff ei adolygu a'i ddiweddarau fel y bo angen, yn unol â'r canllawiau cenedlaethol.

2 Cefndir

Ym mis Mawrth 2020, cyflwynodd Llywodraeth Cymru gyfyngiadau symud cenedlaethol er mwyn atal COVID-19 rhag lledaenu mewn cymunedau yng Nghymru. Ochr yn ochr â hyn, cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai'r rhan fwyaf o

leoliadau addysg a gofal plant yn cau. Caewyd pob ysgol at ddiben addysg ffurfiol erbyn 20 Mawrth a gwnaethant aros ar gau am y tri mis nesaf. Er i blant gweithwyr allweddol a phlant agored i niwed barhau i fynychu ysgolion 'Hyb' a lleoliadau gofal plant, cyfran fach iawn o'r niferoedd presenoldeb arferol oedd hyn. Nid oes dim clystyrau nac achosion wedi cael eu nodi yn y lleoliadau hyn.

Ar 3 Mehefin 2020, cyhoeddodd Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru y byddai ysgolion yn cynyddu eu gweithrediadau o 29 Mehefin tan 24 Gorffennaf, er mwyn i bob dysgwr gael y cyfle i ailgydio, dal i fyny a pharatoi ar gyfer yr haf a mis Medi'. Bydd y cynnydd hwn mewn niferoedd disgyblion yn digwydd ar yr un pryd ag ailagor neu gynyddu niferoedd y plant sy'n mynychu llawer o leoliadau gofal plant megis meithrinfeydd dydd, a gyhoeddwyd gan y Prif Weinidog ac a ddechreuodd ar 22 Mehefin. Er bod Llywodraeth Cymru wedi amlinellu camau y dylid eu cymryd er mwyn cadw pellter cymdeithasol, cydnabyddir y gall fod amgylchiadau pan na fydd modd cadw pellter cymdeithasol rhwng plant, ac oedolion hefyd, mewn lleoliadau addysg a gofal plant. Felly, mae hyn yn debygol o arwain at fwy o gyswllt rhwng plant ac oedolion o aelwydydd gwahanol, gan arwain at gynnydd mewn trosglwyddo COVID-19 o bosibl.

Wrth ymchwilio i glystyrau a digwyddiadau COVID-19 a'u rheoli, y nod fydd:

1. Diogelu unigolion a chymunedau lle y bydd achosion, yn ogystal â lleihau lledaeniad y feirws i gymunedau eraill
2. Gwerthuso mesurau rheoli er mwyn llywio argymhellion cenedlaethol ar gyfer rheoli achosion a pholisïau a chanllawiau parhaus i leoliadau addysg a gofal plant
3. Deall epidemioleg a throsglwyddiad SARS-CoV-2 yn well mewn lleoliadau addysg a gofal plant

3 Diffiniadau

Mae lleoliadau addysg yn cynnwys:

- *Lleoliadau blynyddoedd cynnar, e.e. lleoliadau meithrin*
- *Ysgolion cynradd*
- *Ysgolion uwchradd*
- *Ysgolion arbennig/leoliadau preswyl*
- *Colegau addysg bellach*
- *Lleoliadau addysg uwch a gofal plant, gan gynnwys neuaddau preswyl*

Mae lleoliadau gofal plant yn cynnwys:

- *Gofal dydd llawn*
- *Gofal dydd sesiynol*
- *Gwarchodwyr plant*
- *Darpariaeth chwarae mynediad agored*
- *Gofal y tu allan i'r ysgol*

- Crèche

Clwstwr posibl – angen ymchwilio ymhellach

"Dau neu fwy o achosion a gadarnhawyd o COVID-19 ymhlith myfyrwyr neu staff yn yr un lleoliad addysg neu ofal plant o fewn 14 diwrnod"

neu

"Cynnydd yn y gyfradd absenoldeb gefndirol oherwydd achosion a amheuir neu a gadarnhawyd o COVID-19 (heb gynnwys y gyfradd absenoldeb am fod unigolion yn gwarchod eu hunain neu'n hunanyngysu fel unigolion sydd wedi bod mewn cysylltiad ag achosion)"

Digwyddiad posibl – angen ymchwilio ymhellach

"Dau neu fwy o achosion a gadarnhawyd o COVID-19 ymhlith plant, myfyrwyr neu staff sy'n gysylltiadau agos uniongyrchol, yn gysylltiadau agosrwydd neu yn yr un grŵp neu gohort (a elwir weithiau'n 'swigod') yn y lleoliad addysg neu ofal plant o fewn 14 diwrnod".*

** gallai grŵp neu gohort bach ('swigen') fod yn ddsbarth, yn grŵp blwyddyn neu'n grŵp arall a ddiffinnir. Mae'r diffiniad hwn yn ceisio gwahaniaethu rhwng y trosglwyddo sy'n digwydd yn y gymuned â'r trosglwyddo sy'n digwydd yn y lleoliad addysg neu ofal plant.*

Achos

Achos a gadarnhawyd: achos sydd wedi cael canlyniad prawf positif mewn labordy ar gyfer COVID-19, gyda neu heb symptomau

Achos posibl: peswch cyson newydd a/neu dymheredd uchel a/neu golli'r gallu arferol i flasau neu arogleuo, neu newid yn y gallu hwnnw (anosmia)

Cysylltiad

Cysylltiadau agos uniongyrchol: Cyswllt wyneb yn wyneb ag achos am unrhyw gyfnod o amser, o fewn 1m, gan gynnwys achos yn pesychu ar yr unigolyn, sgwrs wyneb yn wyneb, cyswllt corfforol heb ddiogelwch (croen wrth groen). Mae hyn yn cynnwys dod i gysylltiad o fewn 1m am funud neu fwy.

Cysylltiadau agosrwydd: Cyswllt agos estynedig (o fewn 2m am fwy na 15 munud) ag achos neu fod wedi teithio mewn cerbyd bach ag achos a gadarnhawyd

Cyfnod heintus

Ystyrir bod y cyfnod heintus yn para o 48 awr cyn i'r symptomau ddechrau hyd at 7 diwrnod wedi hynny, neu 48 awr cyn y prawf os nad oedd gan yr achos symptomau.

4 Crynodeb o gamau gweithredu wrth ymchwilio a rheoli


Mae crynodeb o'r camau cyffredinol i'w cymryd wrth ymchwilio i glystyrau a digwyddiadau COVID-19 mewn lleoliadau addysg a gofal plant a'u rheoli wedi'i amlinellu yn ffigur 1. Ceir rhagor o fanylion yn adran 5 ond dyma'r camau yn fras:

1. Nodi achosion mewn clwstwr posibl
2. Casglu gwybodaeth sylfaenol
3. Gwaith cychwynnol i reoli clwstwr ac asesu'r risg
4. Nodi digwyddiad a'i reoli


DRAFT

Ffigur 1: Siart lif ar gyfer ymchwilio i glystyrau a digwyddiadau COVID-19 mewn lleoliadau addysg a gofal plant a'u rheoli

NODI ACHOSION A CHLYSTYRAU POSIBL



HYSBYSU YNGHYLCH CLWSTWR A AMHEUIR MEWN LLEOLIAD ADDYSG A GOFAL PLANT



(1) Cynllun ar gyfer Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy i Gymru, 2020; ALI: Awdurdod Lleol; CCDC: Ymgynghorydd Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy; CDSC: Canolfan Arolygu Clefydau Trosglwyddadwy; CHP: Ymgynghorydd Diogelu Iechyd; CRM: Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid; EDPH: Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd; IMT: Tîm Rheoli Digwyddiad; OCT: Tîm Rheoli Achosion; TTP: System orlhain cysylltiadau 'Profi, Orlhain, Diogelu'.

5 Ymchwilio i glystyrau ac achosion a'u rheoli

5.1 Nodi clystyrau

Caiff clystyrau o achosion mewn lleoliadau addysg a gofal plant eu nodi drwy wneud y canlynol:

- Swyddogion olrhain cysylltiadau a chynghorwyr cysylltiadau i hysbysu ('fflagio') am achosion unigol, os oes modd, ar system olrhain achosion CRM (drwy drafod ag achosion a gadarnhawyd a chysylltiadau (neu eu rhieni/gwarcheidwaid)). Dylai'r achosion posibl hyn gael eu huwchgwyfeirio i lefel ranbarthol drwy system CRM.
- Hysbysiadau uniongyrchol o ffynonellau arferol, fel labordai a tîm gwyliadwriaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru, lleoliadau addysg a gofal plant ac awdurdodau lleol, ac ymarferwyr iechyd (gan gynnwys nyrsys ysgol). Gall yr hysbysiadau hyn ddod drwy dimau lleol a rhanbarthol, neu'n uniongyrchol i dîm cenedlaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan gynnwys drwy'r rhif ffôn cenedlaethol, sef 0300 00 300 32. Os byddant yn cyrraedd y tîm cenedlaethol yn uniongyrchol, dylent gael eu bwydo i lawr i'r tîm rhanbarthol i ddechrau.

Pan gaiff achos a gadarnhawyd ei nodi mewn lleoliad addysg neu ofal plant, dylid cysylltu â'r lleoliad hwnnw er mwyn canfod a oes rhagor o achosion yno. Os ceir pryderon y gallai fod clwstwr o achosion yn y lleoliad addysg neu ofal plant hwn, y tîm Profi, Olrhain, Diogelu fydd y pwynt cydgysylltu ar gyfer ymchwilio ymhellach i'r clwstwr posibl hwn.

5.2 Casglu gwybodaeth sylfaenol

Dylai arweinydd clir ar gyfer ymchwilio i glwstwr posibl gael ei benodi yn y tîm Profi, Olrhain, Diogelu rhanbarthol er mwyn gallu cynnal asesiad risg cyflym ac amserol ar gyfer y sefyllfa.

Mae'n hollbwysig bod yr arweinydd rhanbarthol ar gyfer clwstwr a phennaeth y lleoliad addysg neu ofal plant lle y ceir clwstwr posibl yn cyfathrebu â'i gilydd yn gynnar ac yn effeithiol. Dylai person dynodedig yn y lleoliad (y Pennaeth, y Rheolwr neu berson cyfatebol, a dirprwy os oes angen) gael ei benodi'n bwynt cyswllt clir. Yn ddelfrydol, dylai'r pwynt cyswllt hwn fod ar gael y tu allan i oriau gwaith arferol. Dylid gofyn i'r lleoliad addysg neu ofal plant ddiweddarau'r tîm rhanbarthol yn rheolaidd ynglŷn ag unrhyw wybodaeth newydd nes bydd yr arweinydd rhanbarthol o'r farn nad yw'r clwstwr yn peri pryder mwyach.

Fel rhan o'r ymateb cychwynnol i glwstwr posibl, dylai'r tîm Profi, Orlhain, Diogelu rhanbarthol gasglu gwybodaeth am achosion a chysylltiadau posibl rhyngddynt. Dylai'r wybodaeth hon gael ei chasglu gan achosion (neu eu rhieni/gwarcheidwaid), cysylltiadau, sefydliadau addysg neu ofal plant (drwy bennaeth y lleoliad) ac ALIau, er enghraifft.

Dylai'r gwaith cychwynnol o gasglu data gynnwys y wybodaeth ganlynol:

1. Y lleoliad ei hun:
 - Natur y lleoliad addysg neu ofal plant (e.e. ALI/ysgol eglwys/meithrinfa)
 - Cynllun adeiladau'r ysgol/lleoliad a'r nifer o safleoedd
 - Cyfanswm y plant/myfyrwyr sy'n mynychu ar hyn o bryd, niferoedd y grwpiau bach, cohortau ('swigod') a nifer y plant/myfyrwyr ym mhob un
 - Cyfanswm yr holl staff, **gan gynnwys staff addysgu, staff cymorth, staff gweinyddol, staff glanhau, gofalwyr, staff arlwyo ac unrhyw wirfoddolwyr neu gynorthwyywyr ymhlith eraill*
 - Unrhyw blant neu staff agored i niwed neu eithriadol o agored i niwed sy'n mynychu'r lleoliad a pha grŵp bach neu gohort y maent ynddo; os mai ysgol arbennig yw'r lleoliad, dylid nodi natur anghenion arbennig y disgyblion
2. A yw'r lleoliad yn ymwybodol o'r canllawiau ar fesurau rheoli heintiau/mesurau cadw pellter cymdeithasol i staff a myfyrwyr (gan gynnwys defnyddio cyfarpar diogelu personol os oes angen i'r disgyblion gael gofal personol) ac yn eu dilyn
3. Achosion a gadarnhawyd ac achosion posibl ymhlith y plant/myfyrwyr a pha grŵp bach neu gohort (dosbarthiadau, grwpiau a grwpiau blwyddyn) y maent yn eu mynychu; dylid cynnwys plant/myfyrwyr sy'n arddangos symptomau ac yn aros i gael prawf ac unrhyw rai y mae'n hysbys eu bod wedi mynd i'r ysbyty
4. Achosion a gadarnhawyd ac achosion posibl ymhlith y staff* (gan gynnwys staff sy'n arddangos symptomau ac yn aros i gael prawf ac unrhyw rai y mae'n hysbys eu bod wedi mynd i'r ysbyty); eu rolau a'r grwpiau y maent yn rhyngweithio â nhw; dylid cadarnhau a yw'r staff yn symud rhwng safleoedd, os yw hynny'n berthnasol
5. Dyddiadau dechrau achosion a symptomau achosion (dyddiadau profion os nad oes ganddynt symptomau)
6. Unrhyw frodyr, chwiorydd neu blant i achosion sydd hefyd yn mynychu'r lleoliad
7. Nifer y cysylltiadau sy'n cyfateb i'r diffiniadau o gysylltiadau o bosibl; dylid annog y lleoliad i ystyried a all ymwelwyr (e.e. rhieni/gwarcheidwaid,

llywodraethwyr, ymwelwyr proffesiynol, athrawon cyflenwi), yn ystod y cyfnod perthnasol, fod yn gysylltiadau

8. Yr effaith weithredol ar y lleoliad addysg neu ofal plant hyd yma yn sgil achosion a hunanynysu cysylltiadau, ac effaith debygol unrhyw hunanynysu newydd
9. Y cyfathrebu sydd wedi bod â rhieni/gwarcheidwaid hyd yma, gan gynnwys gwybodaeth am yr hyn sydd wedi cael ei anfon atynt hyd yn hyn

5.3 Gwaith cychwynnol i reoli clwstwr ac asesu'r risg

Dylai'r arweinydd rhanbarthol ar gyfer y clwstwr ddatblygu'r gwaith cychwynnol o ymchwilio i'r clwstwr o achosion a'i reoli er mwyn asesu pa mor sylweddol yw'r risg o bosibl (blwch 1).

Dylai'r gwaith cychwynnol o ymchwilio i glwstwr ystyried y canlynol:

- *A yw'r achos cyfeirio neu'r achosion cychwynnol yn debygol o fod wedi dal yr haint yn y lleoliad neu o ffynhonnell arall, megis gartref*
- *A oes cysylltiad rhwng yr achosion o ran amser a lle, neu a oes tystiolaeth i awgrymu lledaeniad ehangach o achosion*
- *A yw'n amlwg o'r dechrau beth sydd wedi achosi'r clwstwr o achosion, e.e. na chafodd y mesurau cadw pellter cymdeithasol eu dilyn ar y pryd*

Blwch 1: Dylai'r asesiad risg cychwynnol fod yn seiliedig ar y canlynol:

- a. **Difrifoldeb** – unrhyw blant, myfyrwyr neu staff y rhoddwyd gwybod eu bod wedi cael eu derbyn i'r ysbyty, uned gofal dwys neu eu bod wedi marw o ganlyniad i COVID-19
- b. **Lledaeniad** – dylid canfod beth oedd y dyddiad 48 awr cyn dechrau symptomau cyntaf neu ganlyniad prawf positif unrhyw achos a gadarnhawyd neu achos a amheuir, nifer yr achosion a gadarnhawyd neu'r achosion a amheuir sy'n absennol ar hyn o bryd, nifer yr achosion fesul grŵp blwyddyn a dosbarth
- c. **Ansicrwydd** – a all y lleoliad wahaniaethu rhwng y gyfradd absenoldeb oherwydd symptomau COVID-19 a'r gyfradd absenoldeb oherwydd gwarchod/hunanynysu fel cysylltiadau neu ddewis rhieni i dynnu eu plant allan o'r ysgol?
- d. **Mesurau rheoli** – dylid asesu'r camau gweithredu a gymerwyd hyd yma a nifer yr achosion a'r cysylltiadau sydd eisoes yn hunanynysu, cadarnhau bod achosion wedi cydymffurfio â'r rheolau hunanynysu, asesu'r mesurau rheoli heintiau, golchi dwylo a chadw pellter cymdeithasol sydd ar waith ar hyn o bryd, cynllun y lleoliad a'r ffordd y caiff y staff a'r myfyrwyr eu cadw ar wahân, ac ystyried oedrannau'r plant/pobl ifanc a'r tebygolrwydd y byddant yn glynu wrth y mesurau.
- e. **Cyd-destun** – problemau cyfathrebu, problemau gweithredol, pryder neu gamwybodaeth ymhlith y staff a'r rhieni/gwarcheidwaid/plant/pobl ifanc; yr oedrannau a'r grwpiau dan sylw; i ba raddau y mae'r plant yn glynu wrth y mesurau cadw pellter cymdeithasol/atal a rheoli heintiau; plant agored i niwed.

Dylid cymryd y camau canlynol:

1. Dylid cael trafodaeth fanwl â phennaeth y lleoliad addysg neu ofal plant er mwyn sicrhau bod holl gyngor Llywodraeth Cymru i ysgolion (gan gynnwys canllawiau atal a rheoli heintiau) yn cael ei roi ar waith ac ystyried a ellir cymryd unrhyw gamau ychwanegol i gynyddu'r mesurau sydd eisoes ar waith¹.
2. Os caiff clwstwr ei nodi mewn lleoliad addysg neu ofal plant, bydd yn arbennig o bwysig sicrhau bod yr holl achosion a'r cysylltiadau a nodwyd yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru/Iechyd Cyhoeddus Cymru ar brofi a

¹ Gweler y canllawiau yn: <https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-lleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel>; <https://llyw.cymru/diolgeu-addysg-canllawiau-gweithredol-i-ysgolion-lleoliadau-addysg-covid-19>; <https://www.gov.uk/government/publications/covid-19-decontamination-in-non-healthcare-settings/covid-19-decontamination-in-non-healthcare-settings>

hunanyysu a gall fod angen adnoddau ychwanegol yn y tîm Profi, Olrhain, Diogelu lleol i sicrhau y caiff camau dilynol amserol eu cymryd ar eu cyfer.

3. Dylid gofyn i'r lleoliad addysg neu ofal plant gysylltu â'r tîm rhanbarthol sy'n rheoli'r clwstwr os bydd yn nodi unrhyw achosion newydd neu os bydd ganddo unrhyw bryderon eraill. Dylid rhoi llwybr clir iddo allu gwneud hyn (enw/au cyswllt a rhif ffôn yn ystod oriau a'r tu allan i oriau). Dylid e-bostio copi o daenlen y Set Ddata Sylfaenol ar gyfer Lleoliadau Addysg a Gofal Plant ar y lleoliad addysg neu ofal plant, os bydd hyn yn ei helpu i gadw golwg ar absenoldebau sy'n gysylltiedig â COVID-19. Os na fydd yr ysgol yn cysylltu â'r tîm rhanbarthol yn rheolaidd, dylai'r tîm gysylltu â'r ysgol ei hun nes yr ystyrir bod y clwstwr wedi dod i ben. Dylid hefyd atgoffa'r lleoliad addysg neu ofal plant bod heintiau eraill fel meningitis yn dal yn gyffredin, ac y dylid cael sylw meddygol lle y bo'n briodol.
4. Dylid atgoffa lleoliadau addysg a gofal plant, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru/Iechyd Cyhoeddus Cymru, os bydd plentyn, person ifanc neu aelod o staff yn datblygu symptomau sy'n gydnaws â COVID-19, y dylid ei anfon adref a dweud wrtho hunanyysu am 7 diwrnod a threfnu i gael prawf er mwyn gweld a oes ganddo COVID-19. Caiff rhagor o fanylion am yr hyn y dylid ei wneud yn y sefyllfa hon eu hesbonio'n fanwl yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru².
5. Bydd y tîm Profi, Olrhain, Diogelu lleol yn cysylltu â phob achos a chysylltiadau pob achos i roi cyngor ar brofi a hunanyysu (yn unol â'r canllawiau cenedlaethol ac o dan gyfarwyddyd y tîm rhanbarthol). Fodd bynnag, yn gyffredinol:
 - a. Os bydd plentyn, person ifanc neu aelod o staff yn cael canlyniad prawf negatif, a'i fod yn iach, gall ddychwelyd i'w lleoliad addysg neu ofal plant ar ôl gwell o'i salwch aciwt.
 - b. Os bydd plentyn, person ifanc neu aelod o staff yn cael canlyniad prawf positif, dylai gweddill ei ddsbarth neu grŵp o fewn y lleoliad addysg neu ofal plant (os cânt eu diffinio fel cysylltiadau) gael eu hanfon adref a dylid dweud wrthynt hunanyysu am 14 diwrnod o'r cyswllt diwethaf â'r achos.
 - c. Cynghorir unrhyw gysylltiadau sy'n datblygu symptomau i drefnu prawf ar gyfer COVID-19 neu, os na chânt brawf, dylent barhau i aros i ffwrdd o'r lleoliad am 14 diwrnod o'r cyswllt diwethaf â'r achos a gadarnhawyd.

²Gweler y canllawiau yn: <https://llyw.cymru/diolgeu-addysg-canllawiau-gweithredol-i-ysgolion-lleoliadau-addysg-covid-19>

- d. Ni fydd angen i aelodau eraill o aelwydydd y dosbarth neu'r grŵp ehangach (h.y. cysylltiadau aelwyd y cysylltiadau) hunanynysu, oni fydd y plentyn, y person ifanc neu'r aelod o staff y maent yn byw gydag ef yn y grŵp hwnnw yn datblygu symptomau wedi hynny.
6. Dylai'r arweinydd rhanbarthol ar gyfer y clwstwr ystyried pa negeseuon ehangach y bydd angen eu rhannu â staff, llywodraethwyr, rhieni/gwarcheidwaid a disgyblion. Gall hyn olygu bod y lleoliad addysg neu ofal plant yn anfon llythyrau safonol at gysylltiadau a phobl nad ydynt yn gysylltiadau, yn ogystal ag arddangos posteri a defnyddio llwyfannau ar-lein fel Scoop a Hwb. Dylid rhoi'r llythyr templed hwn i leoliadau.
 7. Dylai'r arweinydd rhanbarthol hefyd gysylltu â thîm CDSC Iechyd Cyhoeddus Cymru, i sicrhau ei fod yn ymwybodol o'r clwstwr a amheuir y cedwir golwg arno ac i ganfod a oes ganddo ragor o wybodaeth a allai fod yn berthnasol i'r gwaith o ymchwilio i'r clwstwr hwn a'i reoli.
 8. Fel arfer, dylid ystyried bod clwstwr wedi dod i ben pan fydd 28 diwrnod wedi mynd heibio ers dechrau'r achos olaf a gadarnhawyd yn y lleoliad addysg neu ofal plant a bod unrhyw achosion posibl ymhlith plant/myfyrwyr neu staff yn y cyfnod hwnnw wedi cael canlyniadau prawf negyddol.

Os bydd gan yr arweinydd rhanbarthol ar gyfer y clwstwr bryderon am glwstwr risg uchel neu ddigwyddiad posibl, dylai drafod y mater â'r Ymgynghorydd Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy/Ymgynghorydd Diogelu Iechyd (CCDC/CHP) y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi'i glustnodi i'w ranbarth. Os na fydd yr unigolyn hwnnw ar gael, dylid cysylltu â'r CCDC/CHP COVID-19 ar ddyletswydd. Gyda'i gilydd, dylent ystyried y wybodaeth sydd ar gael a phenderfynu a *allai* clwstwr o achosion fod yn gyfystyr â digwyddiad. Os byddant yn credu y gallai fod yn ddigwyddiad, dylent symud ymlaen i bwynt 5.4.

5.4 Digwyddiadau mewn lleoliad addysg neu ofal plant

Os amheuir digwyddiad mewn lleoliad addysg neu ofal plant, dylid cymryd y camau canlynol:

1. Bydd CCDC/CHP Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cysylltu ar frys ag uwch gydweithwyr dynodedig yn yr ALL perthnasol, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Bwrdd Iechyd, yn unol â'r trefniadau Diogelu Iechyd presennol. Mae'n debygol y caiff cyfarfod digwyddiad brys (Tîm Rheoli Digwyddiad (IMT)) ei alw ac y caiff unigolion allweddol y mae angen iddynt ymchwilio i'r sefyllfa a'i rheoli eu gwahodd iddo. Caiff unrhyw fesurau rheoli uniongyrchol sydd eu hangen ar unwaith eu rhoi ar waith cyn y cyfarfod hwn. Cytunir ar gamau

gweithredu brys i reoli'r sefyllfa (gan gynnwys cau dosbarthiadau/ a oes angen cymryd swabiau yn helaeth) yn y cyfarfod hwn.

Blwch 2: Pryd i ddatgan achos mewn lleoliad addysg neu ofal plant

Ymdrinnir â'r rhan fwyaf o glystyrau a digwyddiadau mewn modd cynhwysfawr o dan y trefniadau a ddisgrifir yn 5.4 a 5.5, sy'n galluogi rhoi ymchwiliadau a mesurau rheoli ar waith yn gyflym iawn, gan gynnwys cymryd swabiau ymhlith dosbarthiadau/grwpiau ehangach a nodwyd yn yr ysgol, os bydd angen.

Dan amgylchiadau prin, bydd digwyddiad mewn lleoliad addysg neu ofal plant mor gymhleth fel y bydd angen ei reoli yn unol â strwythurau ffurfiol cynhwysfawr Tîm Rheoli Achosion.

Caiff pryd a sut y dylid datgan a rheoli achos ei esbonio'n fanwl yn y Cynllun ar gyfer Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy i Gymru (2020).

Pan wneir penderfyniad i ddatgan achos yn ffurfiol, dylid rheoli'r achos yn unol â'r canllawiau yn y Cynllun ar gyfer Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy i Gymru (2020).

5.5. Rheoli digwyddiad mewn lleoliad addysg neu ofal plant

Bydd y gwaith pellach o reoli digwyddiad yn datblygu yn sgil penderfyniadau'r IMT a gall amrywio ar sail amgylchiadau penodol y digwyddiad, y nodweddion a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r achosion a'r math o leoliad addysg neu ofal plant a'i nodweddion. Fodd bynnag, dylid ystyried y pwyntiau canlynol:

1. Dylai'r IMT gytuno ar ddull ar gyfer gwaith ymchwilio a rheoli pellach cyn gynted â phosibl. Ymhlith y cwestiynau allweddol y dylai geisio ateb mae:
 - a. Sut y cafodd yr haint ei gyflwyno i'r lleoliad hwn?
 - b. Beth sy'n hysbys ynghylch y graddau y mae'r haint wedi lledaenu?
 - c. A allai'r ffliw/feirws arall fod ar led ar yr un pryd?
2. Dylai'r IMT drafod â phennaeth y lleoliad addysg neu ofal plant a oes angen rhoi mesurau pellach ar waith yn y lleoliad yn seiliedig ar asesiad risg a'r patrwm lledaenu. Dylai'r rhain gynnwys ystyried:

- a. A ddylid gwneud addasiadau i'r ffordd y mae'r lleoliad addysg neu ofal plant yn gweithredu i hwyluso mesurau atal a rheoli heintiau a chadw pellter cymdeithasol.
 - b. A oes angen gofyn i grwpiau ychwanegol hunanyngysu (e.e. grwpiau dosbarth, grwpiau gweithredol eraill neu grwpiau blwyddyn).
3. Dylai'r IMT asesu a ddylid cynnal ymchwiliad manylach gan gynnwys profi grŵp ehangach o staff a phlant/myfyrwyr. Gall y grŵp i'w brofi fod yn ehangach na'r grŵp a nodwyd i'w gadw draw a gallai gynnwys yr ysgol/lleoliad cyfan neu adran benodol o'r ysgol/lleoliad (e.e. grŵp blwyddyn, uned cyn ysgol, ysgol gynradd neu ysgol uwchradd). Dylid ystyried cynnal profion ehangach yn arbennig pan allai profi torfol hwyluso penderfyniadau amser real ynghylch iechyd y cyhoedd er mwyn diogelu iechyd unigolion sy'n mynychu'r lleoliad addysg a gofal plant, eu teuluoedd neu'r gymuned ehangach.
4. Gallai enghreifftiau o sefyllfaoedd pan ellid ystyried hyn gynnwys:
- pan fydd yr achos cyfeirio'n achos a gadarnhawyd mewn plentyn sy'n mynychu lleoliad/ysgol brif ffrwd a bod yr asesiad risg yn awgrymu nad yr aelwyd yw'r ffynhonnell, h.y. amheuir bod yr haint wedi cael ei ddal yn y lleoliad
 - pan fydd un achos a gadarnhawyd yn athro/aelod o staff a bod achosion a amheuir ymhlith plant mewn lleoliad/ysgol brif ffrwd, h.y. amheuir bod yr athro/aelod o staff wedi dal yr haint gan y plant
 - pan fydd achosion a amheuir mewn mwy nag un plentyn sy'n mynychu ysgol brif ffrwd a bod yr achos cyfeirio'n achos a gadarnhawyd mewn aelod o'r teulu, h.y. gwyddom sut yr aeth yr haint i mewn i'r ysgol ond ymddengys iddo gael ei drosglwyddo ymhellach ac mae angen asesu i ba raddau y digwyddodd hyn.
5. Bydd y ffordd yr ymgwymerir ag unrhyw brofi torfol yn debygol o amrywio yn dibynnu ar natur unrhyw ddigwyddiad a'r lleoliad addysg a gofal plant, a'r ffordd gyflymaf a mwyaf ymarferol o gyflawni hyn. Yr IMT fydd yn penderfynu hyn. Gallai'r opsiynau ar gyfer ymgymryd â phrofi torfol gynnwys:
- a. gweithwyr iechyd proffesiynol yn cymryd swabiau gan blant a staff yn y lleoliad neu mewn clinig/safle dynodedig neu Uned Brofi Symudol
 - b. rhieni'n cymryd swabiau gan eu plant a'r staff yn cymryd eu swabiau eu hunain yn yr ysgol
 - c. y plant a'r staff yn cymryd eu swabiau eu hunain gartref ac yn eu hanfon drwy'r post

6. Dan rai amgylchiadau, gall fod angen cynnal ymchwiliadau pellach eraill i un o is-setiau'r digwyddiad. Gallai'r rhain gynnwys:
 - i. camau dilynol manylach mewn perthynas ag aelwydydd achosion positif
 - ii. profion gwrthgyrff dilynol
 - iii. profion genomeg
7. Mewn digwyddiad mewn lleoliad addysg neu ofal plant, bydd yn bwysig gweithio'n agos gyda chydweithwyr addysg yn yr ALL, a all ddod yn aelodau cyfetholedig o IMTs. Hefyd, dylai fod llinell gyfathrebu glir rhwng y lleoliad addysg neu ofal plant â'r IMT, gydag enw cyswllt (a ddylai hefyd fod ar gael y tu allan i oriau yn ddelfrydol). Dylid gofyn i leoliadau addysg a gofal plant ddiweddarau aelodau'r IMT yn rheolaidd am hynt y sefyllfa nes y bydd y digwyddiad wedi dod i ben.
8. Mae strategaeth gyfathrebu glir yn arbennig o bwysig mewn lleoliadau addysg a gofal plant, o ystyried faint o sylw y mae digwyddiad o'r fath yn debygol o'i gael yn y cyfryngau. Felly, mae'n hanfodol cynnwys cydweithwyr o dimau cyfathrebu o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru a sefydliadau partner yn gynnar.

Dylid datgan bod digwyddiad wedi dod i ben pan fydd 28 diwrnod wedi mynd heibio ers dechrau'r achos olaf a gadarnhawyd yn y lleoliad addysg neu ofal plant a bod unrhyw achosion posibl ymhlith plant/myfyrwyr a/neu staff yn y cyfnod hwnnw wedi cael canlyniadau prawf negyddol.